**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 17 Tachwedd 2021 (10:00 – 14:00)**

**Microsoft Teams**

## Yn bresennol

**Cyfarwyddwyr:**
Llinos Roberts (Cadeirydd interim)
Ann Beynon
William Callaway
Nia Elias
Rhys Evans
Meri Huws
Dr Anwen Jones
Gwilym Dyfri Jones
Pedr ap Llwyd
Angharad Roberts
Yr Athro Enlli Thomas

**Sylwedyddion:**
Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru

**Hefyd yn bresennol:** Rhian Huws Williams, Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)<br>Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)<br>Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)<br>Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)<br>Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu)<br>Mari Fflur (Rheolwr Academaidd) (Eitem 19 yn unig) |
| **Ymddiheuriadau:** | Yr Athro Jerry Hunter |

## Cofnodion Cyfarfod 17 Tachwedd 2021

### 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Jerry Hunter, ar achlysur ei gyfarfod olaf, gan nodi gwerthfawrogiad am ei wasanaeth ar y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Cyfeiriwyd at ei ymroddiad i'r agenda ymchwil a chyhoeddi cyfrwng Cymraeg fel cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi. | | |

### 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau gan gynnwys y drafodaeth ar benodi Cadeirydd newydd (Eitem 11). | | |
| 2.2 | Nid oedd unrhyw buddiannau ychwanegol nad oedd eisoes wedi'u nodi ar y Gofrestr Buddiannau. | | |

## 3. Eitem 3 – Penodi cyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cadarnhawyd penodiad Rhys Evans yn ffurfiol fel aelod o'r Bwrdd am bedair blynedd tan 16 Tachwedd 2025, yn dilyn gohebiaeth 5 Tachwedd 2021. | | |
| 3.2 | Ar y pwynt hwn ymunodd a chroesawyd Rhys Evans i'r cyfarfod. | | |

## 4. Eitem 4 – Cofnodion 30 Mehefin 2021

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2021. | | |

## 5. Eitem 6 – Cofnodion 27 Gorffennaf 2021

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2021. | | |

## 6. Eitem 7 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | **Eitem 5.3 – Profi systemau'r Coleg** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd ar ymarferiad dan arweiniad adran gwasanaethau'r heddlu i brofi systemau'r Coleg a'r hyfforddiant dilynol i staff. | | |
| 6.2 | Argymhellwyd bod y Bwrdd yn cael y cyfle i drafod seibr ddiogelwch yn y cyfarfod llawn nesaf. | Seibr ddiogelwch ar yr agenda nesaf | 23 Mawrth 2022 |

### 7. Eitem 8 – Cadarnhau penodiad Is-Gadeirydd interim

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Cadarnhawyd penodiad Meri Huws yn ffurfiol fel Is-Gadeirydd interim, yn dilyn gohebiaeth 23 Medi 2021. | | |

### 8. Eitem 9 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 8.2 | **Ymgysylltu**<br>Adroddwyd ar gyfarfodydd diweddar gyda swyddogion ac aelodau'r Senedd, a diolchwyd i swyddogion Is Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru am hwyluso'r trafodaethau cyllidol a strategol. | | |
| 8.3 | **Cyllideb 2022/23**<br>Adroddwyd ar y cynigion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch cyllideb 2022/23 sy'n cynnwys cynyddu cyllideb addysg uwch, gan gofio na fu cynnydd ers 2016, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn ogystal â chynyddu cyllidebau addysg bellach a phrentisiaethau er mwyn parhau i weithredu'r strategaeth a lansiwyd yn 2019. | | |
| 8.4 | **Addysg Gychwynnol Athrawon**<br>Adroddwyd ar gyfarfodydd i wyntyllu rôl y Coleg ym maes Addysg Gychwynnol Athrawon a'r cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y cynllun deng mlynedd arfaethedig. | | |
| 8.5 | **Amrywiaeth**<br>Adroddwyd yr ymestynnwyd dyddiad cau y swydd Cydlynydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chydraddoldeb er mwyn denu ystod mor eang â phosib o geisiadau. | | |
| 8.6 | **Dengmlwyddiant y Coleg**<br>Adroddwyd ar y bwriad o gynnal digwyddiad yn y Senedd ym mis Mai 2022. | | |
| 8.7 | **Trefniadau gweithio a llesiant**<br>Adroddwyd ar y cyfarfodydd staff rheolaidd a'r cyfle a roddir yn y cyfarfodydd hynny i ymgynghori ar faterion penodol.<br>Adroddwyd bod swyddfeydd y Coleg ar agor a bod hyblygrwydd i ddulliau gweithio staff. | | |
| 8.8 | Ar y pwynt hwn ymunodd Dr Anwen Jones. | | |

## 9. Eitem 10 – Materion cyfansoddiadol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg ar 22 Mawrth 2022 ar ffurf rithiol. | | |
| 9.2 | **Cylchoedd Gorchwyl (Eitem 10a)**<br>Cyflwynwyd a chymeradwywyd diwygiadau i gylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Bwrdd Academaidd. | | |
| 9.3 | Cyflwynwyd a chymeradwywyd cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd Strategol ôl-16 yn ddigyfnewid. | | |
| 9.4 | Ystyriwyd ychwanegu nodweddion mwy pendant i aelodaeth y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ond yn dilyn trafodaeth nodwyd fod y pwyllgorau eu hunain yn adnabod y sgiliau angenrheidiol wrth ystyried aelodaeth newydd a nad oedd angen bod mor benodol yn y cylchoedd gorchwyl. | | |

## 10. Eitem 11 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021. | | |
| 10.2 | **Argymhellion cyfansoddiadol (Eitem 11ii)** | Argymhellion i'r Llys | 22 Mawrth 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyflwynwyd argymhellion ar faterion cyfansoddiadol gan yr Ysgrifennydd i'w cyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) ar 22 Mawrth.<br>Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd newidiadau i'r **Memorandwm Cymdeithasu**:<br>• Dileu cymal 3a o Erthygl 24 sy'n anghymwyso rhai unigolion rhag ymgeisio i fod yn Gadeirydd y Coleg<br>• Addasu Erthygl 27 i ymestyn tymor y cadeirydd i bedair blynedd<br>• Addasu cymal 3b o Erthygl 24 i nodi mai hyd at 12 a heb fod yn llai na 8 cyfarwyddwr fydd ar y Bwrdd | | |
| 10.3 | **Gweithdrefn ail-benodi'r Cadeirydd**<br>Yn ystod y drafodaeth cytunwyd bod y pwyllgor yn addasu a drafftio gweithdrefn ail benodi'r Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd maes o law.<br>Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd bod trefn blynyddol eisoes mewn lle i werthuso perfformiad y Prif Weithredwr. | Ail-ddrafftio'r weithdrefn i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr | Cyn diwedd tymor yr haf 2022 |
| 10.4 | **Amserlen penodi Cadeirydd**<br>Yn ystod y drafodaeth cytunwyd i oedi'r broses ar gyfer penodi Cadeirydd tan ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) ym mis Mawrth. | | |
| 10.5 | **Aelodaeth y Coleg**<br>Yn ystod y drafodaeth ystyriwyd ymestyn aelodaeth y Coleg i sefydliadau addysg bellach a phrentisiaethau. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Wrth drafod asesiad parhaus o effeithiolrwydd y Llys nodwyd mai'r unig faterion sefydlog a berthyn iddi yw derbyn adroddiad blynyddol y Coleg a chyfrifon blynyddol y Coleg. | | |
| 10.6 | **Penodi aelodau a Chadeirydd i'r Bwrdd (Eitem 11iii)**<br>Cyflwynwyd nifer o argymhellion ynghylch penodi aelodau a Chadeirydd i'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd.<br>**Cyfarwyddwyr newydd**<br>Nodwyd penodiad Rhys Evans fel aelod o'r Bwrdd fel a gadarnhawyd yn Eitem 3 ar ddechrau'r cyfarfod.<br>Cytunwyd i gadw un lle gwag ar y Bwrdd am y tro. | | |
| 10.7 | **Ail-benodi cyfarwyddwyr**<br>Cymerodd yr Is Gadeirydd y gadair ar gyfer yr eitem hon.<br>Cymeradwywyd ail benodi Llinos Roberts a Pedr ap Llwyd am ail dymor o 1 Ebrill 2022. | | |
| 10.8 | **Amserlen penodi Cadeirydd**<br>Cytunwyd ar amserlen penodi Cadeirydd newydd yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Coleg ar 22 Mawrth 2022 gan gynllunio strategaeth yn y cyfamser, gyda chymorth arbenigwr recriwtio os ystyrir fod hynny'n addas. | Proses penodi Cadeirydd | Diwedd Mawrth 2022 |

## 11. Eitem 12 - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021. | | |
| 11.2 | **Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig y Coleg 2020/21**<br>Derbyniwyd a chymeradwywyd cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2020/21. Nodwyd y byddant yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r Llys ar 22 Mawrth 2022.<br>Yn ystod y drafodaeth nodwyd bod buddsoddiadau'r Coleg i'w croesawu. | | |
| 11.3 | **Y Gofrestr Risg**<br>Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Strategol ac yn dilyn trafodaeth argymhellwyd mireinio geiriad risg 5.<br>Eglurwyd bod y Gofrestr Risg Gweithredol yn cael ei drafod a'i addasu'n gyson gan y swyddogion a bod modd ei rannu gyda'r Bwrdd. | Ystyried mireinio risg 5 o'r Gofrestr Risg<br><br>Rhannu'r Gofrestr Risg Gweithredol gyda'r Bwrdd Cyfarwyddwyr | 2 Mawrth 2022<br><br>23 Mawrth 2022 |
| 11.4 | **Aelodaeth**<br>Derbyniwyd a chadarnhawyd yr argymhelliad i benodi Ann Beynon yn aelod o'r pwyllgor yn dilyn diwedd tymor Dr Rhodri Llwyd Morgan. | | |

## 12. Eitem 13 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021.<br>Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 29 Medi 2021, gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y pwyllgor:<br>Nododd:<br>• y derbyniwyd adroddiad ar drefniadau diogelwch seibr y Coleg<br>• y cytunwyd i ddiweddaru'r cylch gorchwyl i adolygu cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr yn flynyddol<br>• bod adroddiadau Sterling yn rhoi sicrwydd ar berfformiad buddsoddiadau Sarasin<br>• y cafwyd adroddiadau cynhwysfawr ar faterion Adnoddau Dynol; ac Iechyd a Diogelwch | | |
| 12.2 | **Aelodaeth**<br>Adroddwyd bod camau ar waith i benodi aelod o'r Bwrdd i'r pwyllgor yn dilyn diwedd tymor yr Athro Jerry Hunter. | Penodiad i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | 26 Ionawr 2022 |

## 13. Eitem 14 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021.<br>Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 13 Hydref 2021, gan y Cadeirydd, Gwilym Dyfri Jones: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nododd:<br>• yr adolygwyd y cylch gorchwyl er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Bwrdd Academaidd<br>• y derbyniwyd diweddariad ar Ysgoloriaethau'r Coleg<br>• y derbyniwyd diweddariad ar y prosiect deunyddiau dysgu digidol<br>• y cafwyd trafodaeth lawn ar werthuso'r grantiau pynciol<br>• bod yr Athro Lisa Lewis wedi ei phenodi fel cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi ar ddiwedd cyfnod yr Athro Jerry Hunter, gan nodi diolch iddo am ei gyfraniad<br>• y cafwyd diweddariadau gan y cynrychiolwyr myfyrwyr ar eu profiadau yn ystod y tymor | | |

**14. Eitem 15 – Addysg Uwch – Cynllunio Academaidd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | Cyflwynwyd papur ar Gynllunio Academaidd gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd bod y papur yn adeiladu ar argymhellion trafodaethau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mis Mehefin a'r Bwrdd Academaidd fis Hydref ynghylch blaenoriaethau'r pum i ddeng mlynedd nesaf. | | |
| 14.2 | Yn ystod y drafodaeth adroddwyd bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn awyddus i weld cynnydd yn nefnydd iaith, codi hyder a newid ymddygiad myfyrwyr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.3 | Yn dilyn trafodaeth lawn cytunwyd ar y themâu a amlinellwyd yn y papur fel bod y swyddogion yn gallu dechrau ymgynghori gyda'r sector yn y flwyddyn newydd. | | |

## 15. Eitem 16 – Bwrdd Strategol ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021. | | |
| 15.2 | Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 9 Tachwedd 2021, gan y Cadeirydd, Meri Huws:<br>Nododd:<br>• bod aelodaeth newydd i'r Bwrdd Strategol ôl-16 yn dilyn newid y contractau prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru<br>• y cafwyd diweddariad strategol gan y Prif Weithredwr a chyfeiriwyd at y datblygiadau polisi a deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Addysg Ôl-orfodol<br>• y cafwyd cyflwyniadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar gyd-destun polisi prentisiaethau cenedlaethol a chyfleoedd i ddatblygu'r gefnogaeth ddwyieithog<br>• gwaith y darparwyr prentisiaethau presennol a'r angen i ymestyn gwaith y Coleg ymhellach<br>• y cafwyd cyflwyniad gan Gymwysterau Cymru ar y cydweithio strategol a geir rhyngddynt â'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Coleg gan ganolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth<br>• y cafwyd diweddariad gan NTFW yn nodi trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Coleg ynghylch arwain ar y gefnogaeth ddwyieithog yn y sector | | |

**16. Eitem 17 – Cynulliad Blynyddol 2022**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | Nodwyd y cynhelir Cynulliad Blynyddol y Coleg ar 22 Mawrth 2022 gyda'r penderfyniad ar ffurf y digwyddiad i'w benderfynu yn y flwyddyn newydd. | | |
| 16.2 | Adroddwyd y cadarnheir yr enwebiadau ar gyfer cymrodyr er anrhydedd trwy ohebiaeth. | Cylchredeg enwebiadau cymrodyr er anrhydedd trwy ohebiaeth | Erbyn y flwyddyn newydd |
| 16.3 | Ar y pwynt hwn ymadawodd Angharad Roberts, Pedr ap Llwyd a'r sylwedyddion. | | |

**17. Eitem 19 – CTER (caeëdig)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Ymunodd Mari Fflur ar gyfer y rhan hon o'r cyfarfod.<br>Rhoddwyd cyflwyniad cefndirol ar bapur CTER gan y Prif Weithredwr. | | |
| 17.2 | Rhoddwyd cyflwyniad cyd-destunol ar CTER gan y Cofrestrydd. | | |
| 17.3 | Yn ystod y drafodaeth nodwyd bwysigrwydd: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • diffinio perthynas y Coleg a'r Comisiwn<br>• trefniadau cyllido<br>• Ymchwil a'r Gymraeg<br>• Perthynas y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil gyda'r Bil arfaethedig ar Addysg Gymraeg | | |
| 17.4 | Nodwyd nifer o argymhellion i'w nodi ym mhapur safbwynt y Coleg ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil i'w gyflwyno i gyfarfod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 2 Rhagfyr 2021. | | |
| 17.5 | Argymhellwyd a chytunwyd y dylai'r Coleg gaffael cyngor cyfreithiol arbenigol. | | |
| 17.6 | Argymhellwyd cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd yn y flwyddyn newydd, petai angen. | Cyfarfod posib o'r Bwrdd | Ionawr 2022 |

### 18. Eitem 20 - Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 23 Mawrth 2022<br>• 29 Mehefin 2022 | | |

### 19. Eitem 21 - Diolch

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 19.1 | Diolchwyd i Osian Rhys a Nia Davies am gyfieithu ar y pryd. | | |